Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Crynodeb Gweithredol

# Bwrdd crwn yn edrych ar rôl cydweithio rhwng sawl sector yn y maes trafnidiaeth yng Nghymru

**Alexis Palá, Charlotte Morgan, Charlotte Deeley, a Dan Bristow**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Gorffennaf 2024

# Y prif bwyntiau

- Mae'r papur hwn yn crynhoi'r drafodaeth, y canfyddiadau allweddol a'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o gyfarfod bwrdd crwn diwrnod llawn a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

- Yn gyffredinol, roedd consensws bod cydweithio rhwng sawl sector yn meddu ar ran werthfawr i'w chwarae o ran sicrhau rhwydwaith trafnidiaeth integredig aml-ddull ar gyfer Cymru. Roedd y drafodaeth yn amlygu dwy rôl allweddol ar gyfer cydweithio rhwng sawl sector, sef cefnogi'r rhwydwaith trafnidiaeth i ymateb i angen, a chefnogi newid diwylliannol ac ymddygiadol.

- Roedd y cyfranogwyr yn galw am gysylltu, sefydlu, canoli a gwreiddio trafnidiaeth yng Nghymru yn y gymuned. Gall partneriaethau a chydweithio rhwng sawl sector fod yn fecanwaith ar gyfer gweithredu, sy'n gydgynhyrchiol, yn gyd-greadigol ac yn gydweithredol. Dylai ymdrechion yn y dyfodol adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, a cheisio ysgogi asedau ledled Cymru.

- Daeth tri maes ffocws clir i'r amlwg ar gyfer Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Fe wnaethom fapio saith blaenoriaeth i'r meysydd ffocws hyn, i gefnogi'r gwaith o gyflawni yn eu herbyn:

1) Cydlunio gweledigaeth alluogi i arwain y sector tuag at ddiben cyffredin.

    - Cyd-greu gweledigaeth glir, sefydlog a hirdymor ar gyfer cydweithio rhwng sectorau yn y maes trafnidiaeth yng Nghymru.
    - Cefnogi'r rhwydwaith trafnidiaeth i fod yn ymatebol i le ac yn addasol i anghenion cymunedau.
    - Gwreiddio cynhwysiant, anghenion defnyddwyr, a hygyrchedd ar draws trafnidiaeth Cymru.

2) Canfod a threialu arferion galluogi sy'n rhannu atebolrwydd a chyfranogiad mewn penderfyniadau am drafnidiaeth.

    - Sefydlu partneriaethau a mecanweithiau ystyrlon ar gyfer cydweithio rhwng sawl sector. Dylai hyn symleiddio'r strwythurau presennol, eu cysoni ac adeiladu arnynt.
    - Sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei wreiddio ar draws cynlluniau trafnidiaeth a gwaith partneriaid.

3) Buddsoddi mewn pensaernïaeth alluogi, a'i datblygu i ddod â'r weledigaeth a'r arferion at ei gilydd.

    - Archwilio arferion ariannol a dulliau ariannu sy'n galluogi partneriaid/cydweithredwyr amlsector.
    - Tystiolaeth o effeithiolrwydd.

# Cefndir

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru edrych ar ba mor ddichonol fyddai perchnogaeth gan weithwyr a modelau perchnogaeth gymunedol ar gyfer gwahanol asedau trafnidiaeth. Datgelodd canfyddiadau cychwynnol adolygiad desg a sgyrsiau ag arbenigwyr fod bwlch tystiolaeth yn bodoli, ac arweiniodd hynny at y prosiect hwn yn archwilio sut y gallai Llywodraeth Cymru gynyddu llais rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â thrafnidiaeth (gan gynnwys gweithwyr, y gymuned a rhanddeiliaid perthnasol eraill). Roedd hyn wedi gwneud i ni ymchwilio i sut y gellir ysgogi partneriaethau a chydweithio rhwng sawl sector i ddiwallu anghenion trafnidiaeth integredig a chynaliadwy Cymru.

Er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid a magu momentwm, fe wnaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP), ym mis Ebrill 2024, gynnull cyfarfod bwrdd crwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru ar rôl cydweithio rhwng sawl sector yn system drafnidiaeth Cymru. Mae'r briff hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r prif ganfyddiadau ac argymhellion a ddaeth i'r amlwg o'r drafodaeth yn y diwrnod llawn. I gael crynodeb manylach o'r strwythur bwrdd crwn a'r themâu a ddaeth i'r amlwg o drafodaethau grwpiau llai, gallwch ofyn am ein hadroddiad cryno manylach.

Dylai'r argymhellion a gyflwynir lywio camau pellach gan Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru wrth iddynt ddatblygu eu polisi trafnidiaeth a'u cynlluniau cyflawni dros y flwyddyn nesaf. Cyfuniad o'r trafodaethau o'r diwrnod sydd yn y ddogfen hon, ac nid yw'n cynnwys holl safbwyntiau'r cyfranogwyr.

## Y cyd-destun polisi

Mae trafnidiaeth yn ffactor hanfodol sy'n galluogi llesiant cymdeithasol a thwf economaidd. Er mwyn cyflawni'r holl allu sydd drafnidiaeth i alluogi, mae angen iddi fod yn integredig (cyd-gysylltiedig), dibynadwy, fforddiadwy, o ansawdd da ac effeithlon.

Mae arallgyfeirio cyfranogiad a llais yn allweddol i Lywodraeth Cymru wireddu system drafnidiaeth gwbl hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon fel yr amlinellir yn **Strategaeth Drafnidiaeth Llwybr Newydd Cymru 2021** a chyrraedd y targed o 45% o deithiau drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040 (i fyny o 32% fel yr amlinellir yn Llwybr Newydd). Gan fod mwy na thraean o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd gwledig, ac 80% o Gymru yn wledig, mae Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru eisoes yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a buddsoddi mewn atebion trafnidiaeth gyhoeddus arloesol i ddiwallu anghenion lleoedd sydd wedi'u datgysylltu'n hanesyddol oddi wrth ddulliau trafnidiaeth torfol traddodiadol.

Mae cynyddu opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy ac integredig yn hanfodol i Gymru foderneiddio ei system drafnidiaeth a lleihau ei hallyriadau carbon yn sylweddol er mwyn cael Cymru Sero Net erbyn 2050. Mae newid dulliau a newid ymddygiad yn rhan annatod o hyn. Mae trafnidiaeth gyhoeddus integredig sy'n gweithio'n dda yn helpu i gynyddu'r defnydd er mwyn hybu gwerthiant tocynnau, lleihau costau, a gwneud opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus, trafnidiaeth a rennir a theithio llesol yn fwy deniadol. Er mwyn darparu gwell gwerth am arian o ran trafnidiaeth er budd Cymru gyfan, mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio fwyfwy i sut i weithio'n fwy hyblyg, datganoli penderfyniadau a chyllid i'r lefel leol, a denu mwy o fuddsoddiad gan San Steffan i uwchraddio seilwaith rheilffyrdd rhyng-gysylltiedig Cymru a gwneud gwasanaethau'n fwy dibynadwy.

Yn y cyd-destun ehangach yn y DU, mae Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru mewn sefyllfa flaenllaw. Bydd **Bil Gwasanaethau Rheilffyrdd Teithwyr (Perchenogaeth Gyhoeddus)** Llywodraeth Lafur newydd y DU yn cael ei ddefnyddio i ddod â gwasanaethau rheilffyrdd yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus ac mae'r **Bil Bysiau Gwell** yn ceisio rhoi'r adnoddau i arweinwyr lleol ddarparu gwell gwasanaethau bysiau. Gyda datblygiadau polisi diweddar Llywodraeth Cymru yn ymwneud â bysiau a thaith drawsnewid Trafnidiaeth Cymru ei hun, mae cyfle clir i rannu polisi ac ymarfer, ac arwain y DU o ran datblygu arferion arloesol a chydweithredol ar draws y system drafnidiaeth er mwyn integreiddio'n well.

## Trosolwg o'r bwrdd crwn

Cafodd y bwrdd crwn ei ddatblygu ar y cyd â phartneriaid y prosiect fel cam allweddol tuag at hwyluso trafodaethau strategol rhwng Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach ar sut y gall cymunedau, gweithwyr a rhanddeiliaid ehangach chwarae rhan fwy ystyrlon wrth gynllunio trafnidiaeth a gwneud penderfyniadau. Roedd y cyfarfod bwrdd crwn wedi dod ag amrywiaeth o randdeiliaid ym maes trafnidiaeth yng Nghymru at ei gilydd i archwilio'r dystiolaeth bresennol a'r arferion gorau i lywio'r ffordd o feddwl yn y dyfodol. Roedd y cyfarfod bwrdd crwn yn canolbwyntio'n benodol ar leisiau o'r gymuned a thrafnidiaeth a rennir. Roedd yn cynnwys 25 o gyfranogwyr o Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, ac amrywiaeth o rolau perthnasol yn y byd academaidd, mudiadau'r trydydd sector, cyrff cynrychioladol, llywodraeth leol, grwpiau hygyrchedd, a gweithredwyr/darparwyr trafnidiaeth.

Dyma'r cwestiynau ymchwil arweiniol ar gyfer y drafodaeth diwrnod llawn:

- Pa rôl allai'r gymuned (gan gynnwys trafnidiaeth gymunedol a chynlluniau trafnidiaeth a rennir) ei chwarae o ran gwireddu system drafnidiaeth integredig?
- A oes enghreifftiau o fodelau sefydliadol sy'n galluogi cymunedau a gweithwyr i gael sedd fwy ystyrlon wrth y bwrdd?
- Pa bolisïau y gall Llywodraeth Cymru eu hystyried er mwyn gallu cael cyfranogiad a llais gweithwyr a'r gymuned yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch trafnidiaeth?

Er mwyn hwyluso cyfranogiad dyfnach, roedd y bwrdd crwn hwn wedi defnyddio **Liberating Structures**, sef casgliad o dechnegau hwyluso sy'n annog trafodaeth fywiog ac yn canolbwyntio ar gynnwys lleisiau amrywiol i ddatblygu mentrau newydd. Roedd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, fel yr hwyluswyr arweiniol, wedi addasu'r fframwaith **Purpose-to-Practice** i archwilio'r rôl y mae cydweithio rhwng sawl sector yn ei chwarae mewn system drafnidiaeth integredig yng Nghymru ac i nodi egwyddorion, arferion a blaenoriaethau ar y cyd er mwyn ei galluogi i llwyddo.

# Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Yn gyffredinol, roedd Trafnidiaeth Cymru a phartneriaid Llywodraeth Cymru yn ystyried y cyfarfod bwrdd crwn yn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu â phartneriaid eraill yn y sector trafnidiaeth. Dylai digwyddiadau tebyg barhau'n gyson er mwyn hwyluso "mwy o wrando a siarad" a chynnal y momentwm gyda rhanddeiliaid.

Cafodd llawer o gyfranogwyr eu hysbrydoli i wneud gwahaniaeth. Roedd gan randdeiliaid ddiddordeb mewn sut mae cynyddu'r amrywiaeth o leisiau o gymunedau er mwyn gwneud trafnidiaeth yn fwy cynhwysol a hygyrch i'r rhai maen nhw'n eu cefnogi a'u cynrychioli. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol ymysg y rhai a oedd yn bresennol mai gwerth y ddeialog hon oedd canfod cyfleoedd i wella trafnidiaeth drwy gysylltu a chydweithio ag unigolion a chymunedau sydd ag "amrywiaeth o brofiadau". Roedd ambell yno yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cau'r bwlch cyflawni drwy drafod 'sut' y gall lluosogrwydd o ddulliau ddod at ei gilydd i sicrhau integreiddio ar gyfer newid dull. Roedd llawer yn cydnabod yr effaith y gallai cydweithio ei chael i fynd i'r afael â materion polisi ar raddfa fawr sy'n berthnasol i drafnidiaeth, megis newid yn yr hinsawdd.

## *Pwrpas cydweithio rhwng sawl sector*

Roedd consensws bod cydweithio rhwng sawl sector yn meddu ar ran werthfawr i'w chwarae o ran cyflawni rhwydwaith trafnidiaeth integredig aml-ddull ar gyfer Cymru. Yn ôl un cyfranogwr: "os ydych chi'n gwneud aml-ddull, mae'n rhaid i chi fod yn aml-

sector; mae angen i chi gael twf a gweithgarwch organig rhwng gweithredwyr i wneud i hyn weithio."

Roedd datblygu cydweithrediadau a/neu bartneriaethau rhwng sawl sector yn cael ei ystyried yn ffordd ddymunol i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru gydweithio â gweithredwyr cludiant cymunedol, cludiant a rennir, cludiant cydweithredol a thrafnidiaeth eraill i gyflawni uchelgeisiau ehangach a strategol a gwireddu rhwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n diwallu anghenion Cymru. Roedd consensws ynghylch dau faes gwerth allweddol:

- **Cefnogi'r rhwydwaith trafnidiaeth i ymateb i angen**: galluogi trafnidiaeth i gyrraedd y rhai sydd wedi'u heithrio a/neu nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu ar hyn o bryd.
- **Cefnogi newid diwylliannol ac ymddygiadol**: mae cydweithwyr mewn gwell sefyllfa i ddeall ac amlygu gwir anghenion a chymhellion eu cymunedau.

Mae'r cyfranogwyr eisiau i drafnidiaeth yng Nghymru gael ei chysylltu, ei sefydlu, ei chanoli a hyd yn oed ei gwreiddio yn y gymuned. Ond maent eisiau mwy na dim ond geiriau, roedd llawer wedi rhoi enghreifftiau o fylchau cyson rhwng rhethreg a gweithredu. Roedd galw dro ar ôl tro ar Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i weithredu mewn ffyrdd cydgynhyrchiol, cyd-greadigol a cydweithredol sy'n adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio'n dda ac i geisio ysgogi asedau ledled Cymru. Gall sefydlu partneriaethau a chydweithio rhwng sawl sector fod yn fecanwaith ar gyfer hyn.

Un ddamcaniaeth a ddaeth i'r amlwg oedd y bydd cydweithio yn golygu bod modd lleihau costau a gwireddu arbedion effeithlonrwydd ar draws y rhwydwaith. Mae angen rhagor o ymchwil i brofi'r ddamcaniaeth hon. Roedd dymuniad i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru ddefnyddio cydweithio rhwng sawl sector i gael cyfranogiad mwy amrywiol mewn trafodaethau a phenderfyniadau anodd am gyfaddawdu a heriau sy'n effeithio ar drafnidiaeth. Gellid gwneud hyn drwy gynnwys partneriaid yn y sector ehangach yn gynharach mewn rhaglenni strategol perthnasol a amlinellir yn y **Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth** (2023).

Roedd y cyfarfod bwrdd crwn hefyd yn mynd i'r afael â heriau ar draws y sector y bydd angen mwy o amser i fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, roedd hyder y gellid goresgyn heriau gyda'i gilydd, mewn ffordd wirioneddol amlsectoraidd. Roedd y diwrnod yn cynnwys tri maes ffocws clir i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru fwrw ymlaen â nhw i fanteisio'n well a galluogi cydweithio rhwng sawl sector a phartneriaid posibl:

- Cydlunio cyd-weledigaeth alluogi i arwain y sector tuag at ddiben cyffredin.
- Canfod a threialu arferion galluogi sy'n rhannu atebolrwydd a chyfranogiad mewn penderfyniadau am drafnidiaeth.
- Buddsoddi mewn, a datblygu, pensaernïaeth alluogi, i ddod â'r weledigaeth a'r arferion at ei gilydd.

Rhagarweiniol yw'r canfyddiadau ac mae angen eu profi a'u mireinio ymhellach gyda rhanddeiliaid.

## Cydlunio gweledigaeth alluogi i arwain y sector tuag at ddiben cyffredin.

Dylai Llywodraeth Cymru a TrC gydweithio â phartneriaid amlsector posibl i ddatblygu a chyfleu cyd-weledigaeth ar gyfer y sector. Mae hyn yn cynnwys llunio diben clir sy'n lleihau amwysedd ynghylch 'beth', 'pam' a 'phryd' wrth gydweithio rhwng sawl sector yng Nghymru, ac sy'n gwneud y sector yn fwy cyson o amgylch egwyddorion arweiniol ar gyfer cydweithio rhwng sawl sector yng Nghymru.

Mynegwyd yn glir gan y rhai a oedd yno y dylid ymddiried yn y weledigaeth alluogi hon, ei rhannu, ei chysylltu ag amcanion clir, diffinio rolau cefnogi a chyfrifoldebau, a bod yn gydweithredol o ran sut mae'n cael ei datblygu a'i darparu. Roedd teimlad bod angen i'r weledigaeth fod yn realistig ac yn seiliedig ar sut beth yw 'da' yn awr i Gymru, gan ychwanegu rhagor o fanylion at yr hyn sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Cyflawni.

Dylai'r weledigaeth arwain at gydlyniant fel bod cydweithwyr amlsector a rhanddeiliaid ehangach yn chwarae gyda'i gilydd i gyflawni amcanion cyffredin sy'n gysylltiedig â nod cyffredin. Mae cydgynhyrchu, yng nghyd-destun y cais hwn, yn ymwneud â chyd-greu gweledigaeth y gellir gweithredu arni ac y gellir ei chyflawni ar y cyd drwy gydweithio rhwng sawl sector.

### *Egwyddorion allweddol ar gyfer cydweithio rhwng sawl sector*

Mae egwyddorion yn helpu i adeiladu sylfeini cryf ar gyfer arwain gweledigaeth a gweithredu. Gofynnwyd i'r rhai a oedd yno ddrafftio a blaenoriaethu'r egwyddorion a oedd fwyaf hanfodol yn eu barn nhw i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru eu datblygu ymhellach, a daeth saith i'r amlwg:

1. Ymgysylltu, cydweithio a chyd-greu ystyrlon
2. Parchu amrywioldeb lleol, gan osgoi mynnu bod un dull yn addas i bawb

3. Partneriaethau effeithiol
4. Cyfleu'n glir
5. Strwythurau addasol
6. Llais a chynwysoldeb wrth ddylunio, darparu a gwneud penderfyniadau
7. Hygyrchedd yr holl ffordd drwy lefelau'r system

Man cychwyn yw'r egwyddorion drafft hyn. Dylai Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru weithio tuag at fabwysiadu'r egwyddorion hyn ar ôl ymgysylltu a mireinio ymhellach gyda rhanddeiliaid allweddol. Mae'r tabl egwyddorion gyda thystiolaeth ategol ar gael ar gais.

## Canfod a threialu arferion galluogi sy'n rhannu atebolrwydd a chyfranogiad mewn penderfyniadau am drafnidiaeth

Roedd y rhai a oedd yno eisiau i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru ddatblygu arferion cyson a chydweithredol sy'n rhannu atebolrwydd a dulliau gwneud penderfyniadau gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ehangach. Ar draws grwpiau, soniodd y rhai a oedd yno sut roeddent am gyfrannu at gysoni gwahaniaethau, ystyried cyfaddawdu, pennu blaenoriaethau, ac yn y pen draw, weithio gyda'i gilydd i ragweld problemau a mynd i'r afael â nhw.

Cyn y cyfarfod bwrdd crwn, roedd y rhai a oedd yno wedi adolygu amrywiaeth o astudiaethau achos sy'n benodol i Gymru ac yn rhyngwladol ar gydweithio rhwng sawl sector ym maes trafnidiaeth. Lluniwyd achosion i ysgogi trafodaeth ar ffactorau galluogi, bylchau a chyfleoedd ar gyfer trosglwyddo ymarfer. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi crynodeb o'r astudiaethau achos hynny.

Yn ogystal â'r saith thema a amlinellir isod, roedd myfyrdodau'r cyfranogwyr yn canolbwyntio ar yr angen i barhau i ddatblygu ffyrdd o gynnwys cymunedau yn y broses o ddylunio a gweithredu polisïau trafnidiaeth. Bu'r grwpiau hefyd yn trafod sut y gellid datganoli rheolaeth mewn rhai ardaloedd i sicrhau bod cymunedau'n gallu perchnogi mentrau a'u cyflawni ar sail eu gwybodaeth leol. Dyma themâu a nodwyd:

- **Gwreiddio gwasanaethau a llywodraethiant yn y gymuned:** roedd manteisio ar berthnasoedd lleol ac aelodau o'r gymuned sy'n fodlon rhoi o'u hamser a'u hegni, yn allweddol i gyflawni hyn.
- **Ceisio deall ac ymateb i nodweddion lleoedd:** Sefydlu atebion pwrpasol i ymateb i anghenion pob cymuned, wedi'u datblygu gyda chymunedau.

- **Defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar le**: Canfod a defnyddio'r adnoddau, y cryfderau a'r rhwydweithiau presennol mewn cymuned, gan adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio yng Nghymru.
- **Sefydlu ffyrdd o rannu a datganoli pŵer:** Mae sicrhau lefel briodol o reolaeth a datganoli o fewn y system drafnidiaeth yn ffactorau allweddol sy'n galluogi meithrin cysylltiadau effeithiol â chymunedau.
- **Rhoi mwy o lais i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli:** Roedd amrywiaeth y lleisiau a'r asiantau cyflawni yn rhywbeth yr oedd cyfranogwyr o'r farn fod angen iddi fod yn rhan o'r system newydd.
- **Mwy o sicrwydd o ran buddsoddi a chysondeb cyllid:** Ystyriwyd bod modelau cyllido tymor byr yn annigonol ar gyfer sicrhau effaith hirdymor a mynd i'r afael ag anghenion cymunedau yn effeithiol.
- **Deall cyfaddawdu:** datblygu dulliau gweithredu er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwell ar draws y system drafnidiaeth. Er enghraifft, darparu opsiynau gwasanaeth mwy eglur i ddefnyddwyr a hefyd cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o ystyried a dyrannu adnoddau ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth.

I weithredu ar y saith thema a amlinellir uchod, roedd rhai grwpiau wedi awgrymu ymchwil pellach i arferion fel: byrddau ar y cyd, Memoranda Cyd-ddealltwriaeth clir, fframweithiau gwneud penderfyniadau, strategaethau ar y cyd, a chyllidebau a/neu gyllid ar y cyd. Awgrymwyd hefyd dechnegau democratiaeth gydgynhyrchiol a chydgynghorol, megis sesiynau bach cyhoeddus a chyllidebu cyfranogol. Mae angen rhagor o ymchwil ac ymgysylltu er mwyn cyfrannu'n ddigonol at ddatblygu polisïau ar arferion galluogi.

## Buddsoddi mewn, a datblygu, pensaernïaeth alluogi i ddod â'r weledigaeth a'r arferion at ei gilydd.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a chefnogi'r arferion, mynegodd y rhai a oedd yno fod angen cydweithio pellach i adeiladu'r strwythur cywir ar gyfer trefnu a chysoni cydweithwyr o sawl sector. Roedd y cais hwn yn ymwneud ag uno'r dotiau i symud oddi wrth ymrwymiadau achlysurol ad-hoc at 'leoedd' cyson a mecanweithiau ar gyfer cydweithredu a gweithredu. Nid oedd y diwrnod wedi creu ffordd derfynol o drefnu actorion ond roedd wedi cymryd camau i'r cyfeiriad hwnnw. Mae gwaith eto i'w wneud i egluro rolau Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Cyd-bwyllgorau Corfforedig a Llywodraeth Leol ar draws gwahanol sectorau.

Un cais clir oedd osgoi strwythurau hierarchaidd. Disgrifiodd un grŵp sut y dylai actorion ddod at ei gilydd fel "ecosystem ar y rhwydwaith" i ganolbwyntio ar roi cymunedau a defnyddwyr trafnidiaeth yn ganolog yn y broses o wneud penderfyniadau. Roedd atebolrwydd, tryloywder, partneriaeth a llais y gymuned yn

bynciau a oedd yn codi dro ar ôl tro. Cododd cwestiynau hefyd ynghylch sut y gallai gweithio mewn partneriaeth alluogi sefydlogrwydd i gyllid a mynediad at gyllid (er enghraifft gyda chyllid Llywodraeth y DU). Roedd y gefnogaeth hon yn cael ei hystyried yn arbennig o bwysig er mwyn galluogi gweithredwyr ar y lefel leol drwy gydweithio rhwng sawl sector.

# Blaenoriaethau ac argymhellion

Daeth y diwrnod i ben drwy flaenoriaethu camau gweithredu posibl. Ar sail trafodaeth grŵp, gofynnwyd i'r rheini a oedd yno gyflwyno'r camau nesaf hollbwysig i Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru eu cymryd i wreiddio cydweithio rhwng sawl sector ym maes trafnidiaeth yng Nghymru. Fe wnaethom grwpio'r blaenoriaethau hyn yn thematig ac yna eu mireinio gyda chanfyddiadau allweddol a themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro. Rydym wedi adolygu'r blaenoriaethau hyn yn erbyn yr uchelgeisiau a nodir yn y **Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth** ac rydym wedi cysoni ein camau gweithredu a argymhellir â'r rhain lle bo hynny'n berthnasol.

Ceir crynodeb terfynol o'r blaenoriaethau a'r argymhellion cysylltiedig yn Nhabl 1 isod. Yn sail i geisiadau cyfranogwyr roedd awydd i fanteisio ar egni a brwdfrydedd y grŵp a chadw'r momentwm i fynd, ond i dymheru uchelgais y weledigaeth i realiti'r hyn y gellir ei gyflawni. Bydd newid diwylliant yn allweddol i symud draw oddi wrth ffyrdd mwy sefydliadol o weithio tuag at weithio mewn partneriaeth.

## Tabl 1: Saith blaenoriaeth ac argymhelliad

Er mwyn dod â'r crynodeb at ei gilydd, rydym wedi grwpio blaenoriaethau ac argymhellion yn ôl y ceisiadau a amlinellwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn. Dyma'r symbolau cyfatebol:

= yn gysylltiedig â chais am weledigaeth sy'n galluogi
= yn gysylltiedig â chais am arferion sy'n galluogi
= yn gysylltiedig â chais am bensaernïaeth sy'n galluogi

| | Blaenoriaeth | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | **Cais:** Cydlunio gweledigaeth alluogi i arwain y sector tuag at ddiben cyffredin. | |
| 1 | Cyd-greu gweledigaeth glir, sefydlog a hirdymor ar gyfer cydweithio rhwng sectorau yn | Parhau i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ehangach i greu gweledigaeth glir, y gellir gweithredu arni ac y gellir ei rhannu ar gyfer partneriaid a chydweithredwyr aml-sector. Dylai hyn flaenoriaethu |

| | | |
|---|---|---|
| | y maes trafnidiaeth yng Nghymru. | dysgu drwy wneud ac adeiladu ar y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth (NTDP, adran 2.1) a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). |
| **2** | Cefnogi'r rhwydwaith trafnidiaeth i fod yn fwy ymatebol i heriau sy'n seiliedig ar le ac i fod yn addasol i'r gwahanol anghenion sydd gan gymunedau. | Adeiladu ar bartneriaethau seiliedig ar leoedd a ddisgrifir yn y (Cynllun Cyflenwi) i dreialu, cefnogi a gwerthuso gwahanol ddulliau a/neu strategaethau addasol ar gyfer delio â newid dulliau mewn ffyrdd sy'n ymateb i anghenion lleol ac sy'n cysylltu â'r rhwydwaith cenedlaethol. Cofnodi'r hyn a ddysgwyd er mwyn gallu ei ledaeniad a'i ddatblygu yng Nghymru a'r DU yn ehangach. |
| **3** | Gwreiddio cynhwysiant, anghenion defnyddwyr, a hygyrchedd ar draws trafnidiaeth Cymru. | Canfod a threialu mecanweithiau ar gyfer cryfhau llais pobl sydd â phrofiad uniongyrchol a dealltwriaeth o hygyrchedd ar bob lefel o wneud penderfyniadau ar draws trafnidiaeth yng Nghymru. |
| | **Cais**: Canfod a threialu arferion galluogi sy'n rhannu atebolrwydd a chyfranogiad mewn penderfyniadau am drafnidiaeth | |
| **4** | Sefydlu partneriaethau a mecanweithiau ymgysylltu ystyrlon ar gyfer cydweithio rhwng sawl sector er mwyn symleiddio, cysoni ac adeiladu ar rolau a chyfrifoldebau presennol. | Comisiynu dysgu gweithredol ac adolygu llywodraethiant ac arferion cydweithredol er mwyn datblygu prosesau ymgysylltu clir, atebol a democrataidd gyda phartneriaid aml-sector a rhanddeiliaid ehangach (pan fo'n briodol) i lywio penderfyniadau ynghylch trafnidiaeth yng Nghymru. Dylai'r camau gweithredu gyd-fynd â'r strwythurau rhanbarthol a llywodraethu presennol (ee Cyd-bwyllgorau Corfforedig). |
| **5** | Sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei wreiddio ar draws cynlluniau trafnidiaeth a gwaith partneriaid. | Edrych ar wahanol ddulliau polisi ar gyfer rhoi cefnogaeth ddigonol i fusnesau a gweithredwyr trafnidiaeth llai o faint er mwyn newid i weithrediadau mwy cynaliadwy. Er enghraifft, grantiau i gefnogi mudiadau cymunedol a gwirfoddol i ddefnyddio cerbydau di-allyriadau. |
| | **Cais**: Buddsoddi mewn pensaernïaeth alluogi, a'i datblygu i ddod â'r weledigaeth a'r arferion at ei gilydd. | |
| **6** | Creu amgylchedd ariannol sy'n galluogi fwy er mwyn cael i gydweithio rhwng sawl sector fod yn gallu ffynnu. | Edrych ar arferion ariannol a dulliau ariannu sy'n golygu bod modd i gydweithio barhau rhwng sawl sector. |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Dangos effeithiolrwydd a mesur yr hyn sy'n bwysig. | Datblygu metrigau mwy priodol i olrhain perfformiad a gwelliannau trafnidiaeth. Gellir gwneud hyn drwy feithrin cymunedau ymarfer i lunio a goruchwylio'r gwerthusiadau o ymyriadau y gellir eu datblygu i ardaloedd eraill (fel y bo'n briodol). |

## Casgliad

Mae canfyddiadau'r bwrdd crwn yn dangos sut mae cydweithio rhwng sawl sector yn meddu ar ran allweddol i'w chwarae o ran cyflawni rhwydwaith trafnidiaeth integredig aml-ddull. Dau ddatganiad gwerth allweddol yw: ei fod yn gallu cefnogi'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus cenedlaethol i ymateb i angen a llwyddo'n well i gyrraedd y rhai sydd ar hyn o bryd wedi'u heithrio neu nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar lefel fwy lleol; gall hefyd gefnogi'r newid diwylliannol ac ymddygiadol sy'n angenrheidiol er mwyn newid dulliau teithio gan fod cydweithwyr yn aml yn nes at wir anghenion a chymhellion y bobl y maent yn eu gwasanaethu a'u cefnogi ac yn y sefyllfa orau i gynghori ar strategaethau a'u cyd-ddarparu.

Roedd sefydlu partneriaethau a/neu gydweithrediadau rhwng sawl sector yn cael ei ystyried yn fecanwaith i Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru weithio gyda'r gymuned, gweithredwyr trafnidiaeth a rennir, gweithredwyr teithio llesol a gweithredwyr trafnidiaeth eraill i gyflawni uchelgeisiau strategol ehangach a diwallu'n well yr amrywiaeth o anghenion sy'n bodoli ledled Cymru. Felly, mae cais clir i Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru sicrhau bod cydweithio rhwng sawl sector yn rhan annatod o drafnidiaeth Cymru, a pharhau i arwain y ffordd ar gyfer arferion cydweithredol ac arloesol yn y DU ar gyfer twf economaidd a gwell llesiant cymdeithasol ledled Cymru. I fodloni'r cais hwn bydd rhaid i Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru weithredu mewn tri maes ffocws:

- Cydlunio gweledigaeth alluogi i arwain y sector tuag at ddiben cyffredin.
- Canfod a threialu arferion galluogi sy'n rhannu atebolrwydd a chyfranogiad mewn penderfyniadau am drafnidiaeth.
- Buddsoddi mewn, a datblygu, pensaernïaeth alluogi i ddod â'r weledigaeth a'r arferion at ei gilydd.

Caiff pob un o'r meysydd ffocws hyn eu diffinio gyda blaenoriaethau a chamau gweithredu a argymhellir, sydd wedi'u hamlinellu yn Nhabl 1. Mae rhagor o fanylion am y camau a argymhellir ar gael ar gais.

Mae angen gwneud rhagor o waith i gysoni canfyddiadau, blaenoriaethau ac argymhellion y bwrdd crwn â'r cynlluniau a'r strategaethau presennol yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru barhau i weithio gyda'i gilydd i addasu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth i gwmpasu'r hyn a ddysgwyd o'r cyfarfod bwrdd crwn (megis gweithio tuag at fabwysiadu'r saith egwyddor) er mwyn gwreiddio cydweithio rhwng sawl sector yn gliriach ym maes trafnidiaeth yng Nghymru. Mae ein hargymhellion manylach (sydd ar gael ar gais) yn tynnu sylw at gamau gweithredu allweddol sy'n ymwneud â'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, megis y canlynol:

- Gall Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr ymgysylltiad a'r momentwm o'r cyfarfod bwrdd crwn i gynnwys cymunedau yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, a chyflawni mentrau strategol eraill a amlinellir yn adran 4.5.4 o'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth.
- Gallai'r strategaethau a amlinellir yn adran 4.5 o'r Cynllun Cyflawni gael eu cymdeithasoli'n ehangach gyda sefydliadau cludiant cymunedol, a'r rhai y maent yn eu gwasanaethu, gan ei egluro bod cyfleoedd i gydweithio y tu hwnt i'r trydydd sector.
- Drwy ddiwygio'r geiriad sydd adran 4.5 y Cynllun Cyflawni o "trydydd sector" i gynnwys partneriaid cymunedol ehangach, efallai y bydd mathau eraill o sefydliadau yn eu gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu'n well mewn cynlluniau cyfredol.
- Gallai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Trafnidiaeth Cymru a'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol a amlinellir yn adran 5.4.1 gael ei gyd-ddatblygu'n wirioneddol, a'i ehangu i gynnwys sefydliadau eraill, er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni blaenoriaethau (ee defnyddio arbenigedd datrysiadau technoleg mewn cyd-berchnogaeth o glybiau ceir).

Yn gyffredinol, roedd Trafnidiaeth Cymru a phartneriaid Llywodraeth Cymru yn ystyried y cyfarfod bwrdd crwn yn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu â phartneriaid eraill yn y sector trafnidiaeth ac yn ystyried y dylid cynnal digwyddiadau tebyg yn barhaus i hwyluso 'mwy o wrando a siarad' i gynnal momentwm. Cydnabuwyd bod y bwrdd crwn yn wynebu heriau mwy sylweddol y bydd angen mwy o amser i fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, roedd hyder y gellid mynd i'r afael â bylchau gyda'i gilydd, mewn ffordd amlsectoraidd.

# Ffynonellau

**Liberating Structures. (2024).** Creative Commons License. Adalwyd o: **https://www.liberatingstructures.com/**

Llywodraeth Cymru. (2021). **Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021.** Adalwyd o: **https://www.llyw.cymru/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021**

Llywodraeth Cymru. (2023). **Cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth 2022 i 2027**. Adalwyd o: **https://www.llyw.cymru/cynllun-cyflawni-cenedlaethol-ar-gyfer-trafnidiaeth-2022-i-2027**

Llywodraeth Cymru. (2015). **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).** Adalwyd o: **https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-yr-hanfodion**

Senedd y DU. (2024). **Bil Gwasanaethau Rheilffyrdd Teithwyr (Perchenogaeth Gyhoeddus).** Adalwyd o: **https://bills.parliament.uk/bills/3732**

Yr Adran Drafnidiaeth. (2024). **Yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth sy'n rhoi'r "trawsnewidiad mwyaf i fysiau mewn cenhedlaeth" ar waith**. Adalwyd o: **https://www.gov.uk/government/news/transport-secretary-sets-the-wheels-in-motion-on-biggest-overhaul-to-buses-in-a-generation**

# Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi cyngor annibynnol a thystiolaeth o ansawdd da i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, i'w helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan yn cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, mae wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith What Works y DU, ac yn rhan o'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol (IPPO) i gysylltu llunwyr polisïau ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru â'r ffynonellau tystiolaeth ac arbenigedd ychwanegol hyn.